

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>2 AWST 2017</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - LA CABANA, 2 MITRE TERRACE, PWLLHELI LL53 5HE</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH RHEOLEIDDIO</b>

### **CAIS A DDERBYNIWYD**

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer La Cabana, 2 Mitre Terrace, Pwllheli LL53 5HE, oddi wrth Mr Ayoub Dahech o 27 Stryd Fawr Pwllheli LL53 5RT. Caffi sydd yn darparu bwyd poeth ac oer ar gyfer bwyta ar ac oddi ar y safle yw'r eiddo.

Gwneir y cais mewn perthynas â darparu bwyd poeth fel lluniaeth hwyr y nos i'w fwyta ar ac oddi ar y r eiddo.

Bwriedir darparu bwyd poeth tan 1.00 y bore nos Sul i nos Iau, a than 02:30 y bore ar nos Wener a nos Sadwrn.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

<b>GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG</b>	<b>TRWYDDED ARFAETHEDIG</b>
<b>Lluniaeth Hwyr y Nos/Late Night Refreshments - Dan Do ac Awyr</b> Agored/Indoors and Outdoors	Dydd Llun/Monday 23:00-01:00 Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-01:00 Dydd Mercher/Wednesday 23:00-01:00 Dydd Iau/Thursday 23:00-01:00 Dydd Gwener/Friday 23:00-02:30 Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-02:30 Dydd Sul/Sunday 23:00-01:00
<b>Oriau agor a chau i'r Cyhoedd</b>	Dydd Llun/Monday 11:00-01:00 Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-01:00 Dydd Mercher/Wednesday 11:00-01:00 Dydd Iau/Thursday 11:00-01:00 Dydd Gwener/Friday 11:00-02:30 Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-02:30 Dydd Sul/Sunday 11:00-01:00

### **Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Fe welir o'r cais nad oes llawer o wybodaeth yn cael ei gyflwyno yn rhan M o'r cais mewn perthynas â'r mesurau y bwriedir eu cymryd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ond fe nodir yn benodol -

- Fod bwriad cyflogi goruchwylwyr drysau ar ôl 23.00 yr hwyr ar nos Wener a Sadwrn, a nos Sul cyn gwyliau banc ar gyfnodau prysur.
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Cadw cwrtil yr eiddo yn lan

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## **YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Gwasanaeth tan ac Achub	Llythyr – cadarnhau dim sylwadau ar y cais
Busnes cyfagos	un e bost yn gwrthwynebu
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau a chynnig amodau

## **Gwrthwynebiad - Busnes Cyfagos**

Cafwyd 1 e bost yn gwrthwynebu'r oriau agor hwyr ar sail yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn.

Nodwyd pryder fod yr oriau hwyr yn annog pobl i ymgynnull ar y Stryd yn hwyr yn y nos , gan gynyddu'r posibilrwydd o ddifrod troseddol i adeiladau busnes cyfagos.

## **Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

Nodwyd fod trafodaeth wedi bod gyda'r ymgeisydd a bod cytundeb wedi bod i newid y cais i ostwng yr oriau gwerthu lluniaeth hwyr y nos ac oriau agor i 02:00 ar nos Wener a Nos Sadwrn.

Gan fod yr ymgeisydd wedi crybwyll y defnydd o deledu cylch cyfyng (TCC) , cytunwyd hefyd ar amodau penodol mewn perthynas â defnydd TCC. Mae manylion penodol yr amodau TCC sydd wedi eu cytuno i'w gweld y rhan M o'r cais .

## **ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.